

Arolygiad o Wasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Sir Fynwy

Cynnwys

Cefndir	4
Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned	5
Cryfderau a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella	6
Llesiant	9
Pobl – llais a dewis	14
Partneriaethau ac integreiddio – Cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau Atal ac ymyrraeth gynnar	18
Dull	25
Y Gymraeg	25
Cydnabyddiaethau	26

Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi bod mewn grym ers bron tair blynedd. Y Ddeddf yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ac yn ei moderneiddio yng Nghymru.

Er ei bod yn her enfawr, mae'r Ddeddf wedi cael ei chroesawu'n gyffredinol yn y sector fel peth da, sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol ac ystyriol i newid, a hynny pan fo galw cynyddol, disgwyliadau sy'n newid a llai o adnoddau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ati i hyrwyddo llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalmwr y mae arnynt angen cymorth.

Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi pobl y mae ganddynt anghenion gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu **llesiant**.
- **Pobl** sydd wrth wraidd y system newydd drwy roi cyfle cyfartal iddynt ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- **Partneriaethau a chydweithredu** sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo'r broses o **atal** anghenion rhag gwaethygu a rhoi'r help cywir ar yr adeg gywir.

Yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach', sef cynllun strategol a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Seneddol o ddyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Cymru Iachach yn esbonio'r uchelgais o ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn iddynt gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae Cymru Iachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Gweinidogion wedi cofnodi pwysigrwydd bod â hyder ac uchelgais yn y sector i sicrhau canlyniadau. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu ein dull o arolygu gyda ffocws ar gydweithredu a chryfderau, gyda'r bwriad o gefnogi arloesedd ac ysgogi gwelliant.

Arweinir yr arolygiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac fe'i cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned

Diben yr arolygiad hwn oedd ymchwilio i ba mor dda y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion oedolion hŷn rhag cynyddu. Nododd yr arolygiad lle mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu'r Ddeddf a lle mae angen gwella.

Gwnaethom ni (AGC ac AGIC) ganolbwyntio ar brofiad oedolion hŷn pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn symud drwyddynt nes yr adeg y gall fod angen iddynt symud i gartref gofal. Gwnaethom hefyd ystyried yr adegau pan gawsant brofiad o gydweithio rhwng gwasanaethau'r awdurdod lleol a gwasanaethau'r bwrdd iechyd, neu pan fyddent wedi cael budd o hynny.

Gwnaethom werthuso ansawdd y gwasanaeth o fewn paramedrau pedair egwyddor sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (fel y'u rhestrir uchod) ac ystyried y ffordd y cawsant eu cymhwyso'n ymarferol ar dair lefel:

- Unigol
- Gweithredol
- Strategol

Rydym bob amser yn ystyriol o ddisgwyliadau fel y'u hamlinellir yng nghodau ymarfer y Ddeddf:

- | | |
|--|---|
| • 'Yr hyn sy'n bwysig' – canolbwyntio ar ganlyniadau | • Ataliol |
| • Effaith – canolbwyntio ar ganlyniad nid proses | • Wedi'u cynllunio a'u rheoli'n dda |
| • Gweithredu ar sail hawliau | • Wedi'u harwain yn dda |
| • Aseidiadau Galluedd Meddyliol | • Effeithlon ac effeithiol / Gofal iechyd darbodus |
| • Rheoli – cydberthnasau | • Ymarfer risg gadarnhaol ac amddiffynadwy |
| • Amserol | • Y cyfuniad o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth, gyda barn broffesiynol gynnil |
| • Hygyrch | |
| • Cymesur – cynaliadwyedd | |
| • Yn seiliedig ar gryfderau | |

Cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae AGC ac AGIC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a chanllawiau arfer da.

Llesiant	
Cryfderau	Mae gan yr awdurdod lleol ddull gweithredu cydweithredol sy'n seiliedig ar ganlyniadau lle y mae pobl yn cymryd rhan weithredol yn eu sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' a phenderfyniadau dilynol. Ceir gwaith amlasiantaeth effeithiol ac mae gan y staff ar bob lefel ymrwymiad hirdymor i weledigaeth benodol Cyngor Sir Fynwy ar gyfer llesiant a hyrwyddo annibyniaeth oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned, a dealltwriaeth ymarferol ohoni. Mae meithrin cydberthnasau a chyfathrebu â phobl yn flaenoriaeth; caiff penderfyniadau eu datganoli'n effeithiol a chaiff y bobl gymorth i wneud dewisiadau ystyrlon.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Gwella'r broses o gofnodi sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' fel y caiff canlyniadau personol penodol eu hadlewyrchu yn fanylach ac y gweithredir arnynt o ganlyniad i hyn. Byddai mwy o arweiniad a chymorth o fudd i staff llai profiadol. Mae angen mynd ati i fonitro'r profiad a'r cymysgedd sgiliau ymhlith y timau integredig yn y gymuned. Mae angen gweithdrefnau rheoli a chynnal trosolwg mwy penodol wrth oruchwylio'r staff yn ffurfiol, dyrannu llwythi gwaith a sicrhau ansawdd y gwaith o reoli'r gofal. Mae angen gwella amseroldeb cymorth cartref er mwyn sicrhau bod y bobl yn cyflawni eu canlyniadau personol.
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	Mae'r asesiadau sy'n seiliedig ar gryfhau o ansawdd da yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac yn adlewyrchu dewisiadau a dymuniadau'r bobl. Cânt eu defnyddio'n gymesur ac mewn ffordd amserol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Ceir ymgysylltu cadarnhaol ar y cyfan rhwng y staff a'r rheolwyr yn y timau integredig a gwasanaethau eraill; maent yn rhannu lefel dda o broffesiynoldeb, gwybodaeth ac ymroddiad. Mae gan yr awdurdod lleol hanes da o dreialu a gweithredu dulliau arloesol a chreadigol o ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned, yn seiliedig ar gydweithrediad cryf â'r bobl sy'n byw yn ei ardal leol.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau y caiff llais y bobl, neu lais eu heiriolwr neu eu cynrychiolydd, ei glywed bob amser ac y caiff ei gynrychioli'n effeithiol yn ystod y prosesau diogelu. Mae angen monitro a goruchwyllo llwythi gwaith a gallu'r tîm diogelu yn well. Byddai goruchwyllo ac archwilio'r prosesau diogelu mewn ffordd fwy amserol a phenodol yn helpu i hyrwyddo gwasanaeth o ansawdd mwy cyson. Mae angen deall a chymhwyso'r gweithdrefnau yn gliriach o ran statws asesiadau, adolygiadau, cysylltiadau ac atgyfeiriadau o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, er mwyn hyrwyddo ymateb cyson ac effeithiol gan y gwasanaeth. Mae angen mireinio fframweithiau sicrhau ansawdd ymhellach, er mwyn sicrhau eu bod yn llywio dysgu a datblygu yn y dyfodol.
Partneriaethau, integreiddio a chydweithredu	
Cryfderau	Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu a chynnal dull integreiddio arbennig o dda, gyda gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a chynnal annibyniaeth y bobl. Mae hybiau cymunedol yn gweithio'n effeithiol gydag ymatebion amserol sydd wedi'u hintegreiddio'n dda ac mae'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n ystyried eu bod yn asedau.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Byddai gwaith y timau integredig ac agweddau eraill ar weithio mewn partneriaeth yn elwa ar gael eu hategu gan fframwaith o brotocolau y cytunir arnynt neu ffyrdd eraill o gefnogi'r dull gweithredu hwn.
Atal ac ymyrraeth gynnar	
Cryfderau	Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd arloesol a chreadigol o weithio gyda phobl i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain wrth atal neu oedi eu hangen am ofal a chymorth statudol. Mae'r adnoddau a fuddsoddir mewn amrywiaeth helaeth o wasanaethau yn y gymuned yn cefnogi ymyrraeth gynnar a chanlyniadau da i'r bobl. Mae staff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu gweledigaeth ac ymrwymiad i gefnogi pobl yn y gymuned. Mae cyd-leoli a hyblygrwydd o ran pwy sy'n arwain y broses o reoli'r gofal i unigolion yn hyrwyddo'r dull hwn.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Mae angen sicrhau bod trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth 'drws blaen' yn fwy effeithiol a'u bod yn cydymffurfio â gofynion Rhan 2 y Cod Ymarfer o ran cofnodi gwybodaeth.

	Dylai'r awdurdod lleol roi dull sicrhau ansawdd effeithiol ar waith sy'n ei alluogi i adolygu effeithiolrwydd ei ymyriadau a llywio'r broses o'u gwella. Fel y mae'r awdurdod lleol eisoes wedi nodi, bydd defnydd helaethach o dele-ofal a thechnolegau cynorthwyol eraill yn helpu'r bobl i fod yn fwy annibynnol.
--	--

1. Llesiant

Canfyddiadau: Gall oedolion hŷn fod yn hyderus bod yr awdurdod lleol yn gwrando arnynt ac yn ystyried yr hyn sy'n bwysig iddynt wrth asesu a chyflawni eu canlyniadau llesiant. Fodd bynnag, gellid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau personol eu diffinio a'u nodi'n gliriach ac yn fwy cyson mewn dogfennaeth. Ni all gofalcon fod yr un mor hyderus bod eu canlyniadau llesiant yn cael eu hystyried i'r un graddau na'u hadlewyrchu bob amser yn y cymorth a gynnigir iddynt.

Mae'r bobl yn manteisio ar gydberthnasau cefnogol â thimau amlddisgyblaethol sy'n gweithio'n effeithiol ac yn aml yn greadigol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion a nodwyd. Caiff y cymorth hwn ei hwyluso gan nifer o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u cyd-leoli, sy'n ceisio cyd-gynhyrchu gwasanaethau mewn cydweithrediad â'r bobl.

Mae gan yr uwch-reolwyr a'r aelodau etholedig ymrwymiad hirdymor i weledigaeth Cyngor Sir Fynwy ar gyfer cynnal a hyrwyddo annibyniaeth oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned, a dealltwriaeth ymarferol ohoni.

Mae'r staff sy'n gweithio i Gyngor Sir Fynwy yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac mae cyfleoedd da ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Mae'r staff mwy profiadol yn teimlo'n hyderus yng nghyd-destun y lefel uchel o ymreolaeth sydd ganddynt wrth weithio. Byddai mwy o arweiniad a chymorth o fudd i'r staff llai profiadol ac mae angen parhaus i fonitro'r profiad a'r cymysgedd sgiliau yn y timau integredig yn y gymuned.

Roedd y dulliau o oruchwylio'r staff yn ffurfiol, cynnal trosolwg a sicrhau ansawdd yn ddibynnol iawn ar ddulliau'r rheolwr unigol neu'r tîm, ac nid oeddent yn seiliedig ar fframwaith cydgysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau o ddyrannu gwaith a goruchwylio agweddau ar ddogfennaeth rheoli gofal.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1. Gall y bobl deimlo'n hyderus y gwrandewir arnynt ac y gallant ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir am y cymorth y maent yn ei dderbyn. Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymroi cryn ynni ac adnoddau, a hynny'n effeithiol iawn, er mwyn dod i adnabod y bobl fel unigolion.
- 1.2. Gwelsom sgysiau manwl ar destun 'yr hyn sy'n bwysig' yn y ffeiliau y gwnaethom eu hadolygu a chadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw y gofynnir am eu barn ac y gwrandewir arni. Roedd yr asesiadau a gafodd eu hadolygu yn seiliedig ar gryfderau, ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn adlewyrchu barn a dymuniadau'r unigolyn. Meddai unigolyn a ymatebodd i'n harolwg gofalcon, *"All staff have been very supportive and helpful and have respected both myself and family member who needs ongoing care; especially the social worker"*.

- 1.3. Roedd unigolyn y gwnaethom siarad ag ef a oedd yn cael pecyn gofal llawn er mwyn diwallu ei anghenion yn gadarnhaol iawn am y cydberthnasau ardderchog a oedd yn cael eu meithrin â'r staff gofal uniongyrchol. Roedd mewnbyn amserol gan dechnegydd therapi galwedigaethol wedi ei alluogi i ymdrin â chanlyniad arbennig o bwysig roedd wedi'i nodi mewn perthynas â'i ofal personol. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar gryfderau ac wedi'i ysgrifennu yn y person cyntaf. Roedd gan yr unigolyn ddealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o ganlyniadau a nodwyd pan ofynnwyd iddo am hyn, ac roedd yn gwbl ymwybodol o gynnwys ei gynllun gofal. Roedd unigolyn arall wedi cael ei gefnogi i barhau i wneud ei waith gwirfoddol ar ôl gwella o lawdriniaeth, a oedd yn amlwg yn bwysig iddo.
- 1.4. Roedd yr asesiadau cynhwysfawr yn aml yn cynnwys manylion am amgylchiadau personol, personoliaeth, dewisiadau a diddordebau a oedd wedi'u disgrifio'n dda. Roedd y staff yn aml yn gallu siarad yn fanwl ac yn llawn ymrwymiad amlwg am y bobl roeddent yn eu cefnogi, a'u cymeriad personol, eu dymuniadau a'u hanghenion.
- 1.5. Gwelsom fod yr ymarferwyr yn anghyson wrth gwblhau dogfennaeth mewn perthynas â chanlyniadau personol. Nodwyd canlyniadau cyfannol yn aml, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i lunio nodau ar gyfer canlyniadau personol y gellid monitro ac adolygu cynnydd yn unol â nhw yn benodol. Drwy ganolbwyntio ar un canlyniad cyffredinol, collir cyfleoedd i ganolbwyntio ar amrywiaeth ehangach o ganlyniadau personol, sy'n adlewyrchu'r hyn y mae pobl ei eisiau yn fwy penodol.
- 1.6. Roedd yr ymarfer o ran rhannu dogfennaeth yn amrywiol ac ni ellir rhoi sicrwydd i'r bobl y cynigir copi iddynt o'u hasesiad, eu cynlluniau gofal na chofnodion eu hadolygiadau mewn modd amserol.
- 1.7. Gwelsom yn ffeiliau'r bobl fod yr ymarfer o ran cynnig a chynnal asesiadau gofalcwyr hefyd yn amrywiol. Er i ni weld enghreifftiau o arfer da, gwelsom hefyd fod rhai cyfleoedd i gefnogi'r gofalcwyr yn cael eu colli ac nad oedd y canlyniadau personol roeddent am eu cyflawni yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.
- 1.8. Ni all y bobl fod yn hyderus y bydd yr hyn sy'n bwysig iddynt yn cael ei gofnodi yn yr ysbyty a'i drosglwyddo i'r gwasanaethau cymdeithasol fel mater o drefn. Er i ni weld y staff yn cwblhau'r templed asesu 'yr hyn sy'n bwysig', gwelsom fod hyn yn cael ei ddefnyddio ar brydiau fel ffordd o gofnodi barn yr ymarferydd ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf, yn hytrach na modd o gofnodi'r canlyniadau roedd yr unigolyn am ei gyflawni.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 1.9. Gwelsom arfer da mewn cyfarfod clwstwr lle rhannwyd amgylchiadau unigol y bobl er mwyn sicrhau y ceir cyfathrebu da o fewn tîm o ofalcwyr mewnol. Roedd hyn yn adlewyrchu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar ganlyniadau, sy'n hyrwyddo gofal parhaus.

- 1.10. Gall y bobl sy'n cael gwasanaethau tai ddisgwyl asesiad cadarn ac amserol sy'n ystyried eu hanghenion cyfannol. Gwelsom fod diwylliant ac agwedd o ymatal rhag barnu ymhlith y swyddogion tai â chymorth wrth weithio gyda'r bobl, yr oedd rhai ohonynt yn cael eu hatgyfeirio'n aml at eu gwasanaeth. Roedd pob atgyfeiriad neu gais yn cael ei drin fel un newydd, gydag ystyriaeth newydd o'r materion yn adlewyrchu ymrwymiad i barhau i geisio cefnogi'r bobl ac ystyried amgylchiadau newidiol.
- 1.11. Dywedodd staff Cyngor Sir Fynwy wrthym eu bod yn mwynhau gweithio mewn diwylliant cadarnhaol o 'roi cynnig arni', ac yr ymgynghorir â nhw'n llawn am newidiadau arfaethedig. Roeddent yn gwerthfawrogi'r dull amlddisgyblaethol o weithio a oedd wedi'i ymgorffori, a chlywsom am gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol a chynnydd.
- 1.12. Roedd y staff mwy profiadol yn hoffi'r lefel uchel o ymreolaeth a'r hawl i wneud penderfyniadau a roddwyd iddynt. Dywedodd y staff gwaith cymdeithasol newydd gymhwyso wrthym eu bod yn cael cymorth i atgyfnerthu eu dysgu.
- 1.13. Gwelsom nad oedd y staff llai profiadol mor hyderus mewn rhai agweddau ar y broses o wneud penderfyniadau, a dywedodd rhai ohonynt wrthym y byddai o fudd iddynt pe baent yn cael mwy o hyfforddiant cychwynnol ar weithdrefnau Cyngor Sir Fynwy mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a mwy o waith monitro a chymorth ffurfiol gan y rheolwyr wedi hynny. Nododd yr awdurdod lleol fod ymwybyddiaeth staff newydd o'r Ddeddf a hyfforddiant arni yn faes i'w datblygu ymhellach yn ei hunanwerthusiad a gwblhawyd cyn ein harolygiad.
- 1.14. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, a chyfeiriodd llawer ohonynt at y grwpiau dysgu ymarfer a gynhelir bob pythefnos. Gwelsom ganllaw ar gyfer strwythur sesiynau goruchwyllo i therapyddion galwedigaethol ond nid i weithwyr cymdeithasol. Roedd y nodiadau goruchwyllo yn amrywio rhwng y gwahanol dimau a rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd rhai yn dangos tystiolaeth o drafodaethau am les y gweithiwr, ond roedd eraill ond yn cofnodi trafodaethau am drefniadau rheoli gofal y bobl, heb gyfeirio at lesiant yr aelodau o staff eu hunain. Roedd y trefniadau ar gyfer goruchwyllo staff asiantaeth, a chofnodi hynny, yn anghyson.
- 1.15. Cododd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bryderon am bwysau llwyth gwaith gan ddweud y byddai mwy o gymorth gyda chanllawiau ysgrifenedig a chymorth rheolwyr o fudd iddynt. Roedd y lefelau o brofiad ac arbenigedd yn amrywio'n sylweddol rhwng y timau, ac mae angen mynd ati i fonitro ac addasu, os oes angen, allu a chymysgedd sgiliau'r timau yn y gymuned.
- 1.16. Roedd y trefniadau ar gyfer dyrannu a monitro llwythi gwaith rhwng y timau ac o'u mewn yn aneglur. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw weithdrefnau ar gyfer

awdurdodi a chwblhau asesiadau ac adolygiadau fel elfennau unigol o'r broses o gynllunio a rheoli gofal yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.

- 1.17. Wrth adolygu cofnodion y ffeiliau, rydym yn cydnabod bod ansawdd yr asesiadau a thrin yr adolygiadau fel rhywbeth byw a 'chynhenid' yn elfennau cadarnhaol. Gwelsom fod dyraniadau newydd i lwythi gwaith unigol yn cael eu 'cyd-drafod' gan ystyried gwybodaeth flaenorol a ffactorau eraill. Fodd bynnag, byddai mwy o oruchwyliaeth ffurfiol o fudd i'r gweithdrefnau hyn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd pobl yn gorfod aros yn hirach nag y dylent am wasanaeth, a bod y llwythi gwaith yn cael eu dyrannu mor deg â phosibl.
- 1.18. Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli cwynion ac ymchwilio iddynt. Prin iawn yw'r achosion sy'n cael eu huwchgyfeirio i gam mwy ffurfiol y broses. Gwelsom gysylltiadau effeithiol rhwng canfyddiadau cwynion, cynllunio camau gweithredu mewn ymateb iddynt, a llwybrau strwythuredig ar gyfer rhoi adborth i'r uwch-reolwyr.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 1.19. Roedd gan yr uwch-reolwyr a'r aelodau etholedig ymrwymiad hirdymor i weledigaeth Cyngor Sir Fynwy ar gyfer atal a hyrwyddo annibyniaeth oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned, a dealltwriaeth ymarferol ohoni. Roedd cydweithwyr ym maes tai yn gallu dangos cysylltiadau â gwaith gwasanaethau cymdeithasol ac effaith uniongyrchol eu rolau ar ganlyniadau i bobl.
- 1.20. Roedd cyflwyno trefniadau gweithio ystwyth wedi galluogi'r staff i ddefnyddio eu hamser a'u hadnoddau yn well, ac i weithio'n fwy hyblyg yn unol ag anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi.
- 1.21. Gallai'r broses o roi sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' ar waith yn fwy effeithiol mewn ysbytai gael ei llywio a'i chefnogi ymhellach drwy ddysgu ar y cyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol am yr egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r ffordd y caiff ei chymhwyso'n ymarferol. Roedd diffyg system TG integredig yn llesteirio gallu'r staff i hwyluso llifau cyfathrebu.
- 1.22. Gwelsom dystiolaeth fod rhai archwiliadau yn cael eu cynnal, er enghraifft yr adolygiadau myfyriol blynyddol o'r hybiau yn y gymuned sy'n cynnig adsefydlu a gofal seibiant i'r bobl. Fodd bynnag, mae mesurau sicrhau ansawdd ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar ddulliau rheoli unigol. Er ein bod yn cydnabod gwerth adrodd straeon a chanlyniadau unigol y bobl, ni welsom dystiolaeth dda o fframwaith archwilio systematig sylfaenol sy'n galluogi'r uwch-reolwyr i gael golwg clir o'r galw, yr ansawdd a'r llif gwaith. Mae hyn yn golygu na all yr awdurdod lleol gael sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod canlyniadau unigol personol yn cael eu sicrhau'n gyson o fewn y gwasanaeth.

- 1.23. Roedd yr uwch-reolwyr yn hyderus y byddai'r problemau o ran gallu yn y gwasanaethau cymorth cartref mewn lleoliadau penodol yn yr awdurdod lleol yn cael eu lliniaru drwy drosglwyddo darparwyr annibynnol i'r model 'Troi'r Byd Wyneb i Waered'. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar gydberthnasau wedi cael ei sefydlu ers peth amser yng ngwasanaeth mewnol yr awdurdod lleol ei hun, a bydd ei gyflwyno yn amserol i'r sector annibynnol yn allweddol i liniaru'r pwysau presennol a gwella'r canlyniadau unigol.

2. Pobl – llais a dewis

Canfyddiadau: Gall pobl ddisgwyl cael cynnig sgysiau trylwyr am 'Yr hyn sy'n bwysig' a gall pobl heb alluedd meddyliol fod yn hyderus bod asesiadau a phenderfyniadau er budd pennaf yn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Yn unol â'n canfyddiadau, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yn ei hunanwerthusiad fod argaeledd eiriolaeth yn gyfyngedig, y tu allan i wasanaethau iechedd meddwl.

Ni all pobl ddisgwyl fel mater o drefn y byddant yn cael cynnig taliadau uniongyrchol i'w galluogi i gael dewis am eu gofal a'u cymorth eu hunain. Mae'r diffyg gwasanaethau cymorth cartref yn golygu na all y bobl fod yn hyderus y byddant bob amser yn cael dewis ac yn cael ymateb amserol a chymesur.

Ni all y bobl fod yn siŵr y caiff eu llais, neu lais eu cynrychiolydd neu eu cynrychiolydd, ei glywed bob amser ac y caiff ei gynrychioli'n effeithiol yn ystod y prosesau diogelu. Byddai goruchwyliaeth amserol a phenodol ac archwiliadau o brosesau diogelu yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o ansawdd mwy cyson.

Mae ymgysylltu cadarnhaol rhwng y staff a'r rheolwyr; maent yn rhannu lefel dda o broffesiynoldeb, gwybodaeth ac ymroddiad. Mae angen monitro a goruchwyllo llwythi gwaith a gallu'r tîm diogelu yn fwy effeithiol.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy hanes da o dreialu a gweithredu dulliau arloesol a chreadigol o ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned, yn seiliedig ar gydweithrediad cryf â'r bobl sy'n byw yn ei ardal leol.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1. Roedd sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' wedi cael eu cofnodi yn yr asesiadau y gwnaethom eu hadolygu. Mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r cofnodion hyn y gwnaethom eu hadolygu, roedd y rhain yn fanwl, yn cynnwys deialog person cyntaf, ac mewn rhai achosion roeddent yn cynnwys dyfyniadau gan y bobl a gofnodwyd yn uniongyrchol. Dywedodd y bobl mewn un o'r hybiau cymunedol wrthym eu bod yn cael cymorth cadarnhaol a'u bod yn teimlo y gwrandewir arnynt.
- 2.2. Mae'n ymddangos bod y cymorth dilynol yn amserol, yn seiliedig ar gofnodion y ffeiliau y gwnaethom eu hadolygu, a'r hyn a ddywedwyd wrthym gan y bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth. Gwelsom fod y gwasanaethau'n ymatebol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar atebion. Fodd bynnag, yn rhy aml mynegwyd canlyniadau mewn termau bras iawn – gan amlaf wedi'u disgrifio fel '*to live independently*'. Byddai'r rhain yn llawer gwell pe baent yn cynnwys canlyniadau mwy personol, wedi'u teilwra i adlewyrchu amgylchiadau, anghenion a dymuniadau penodol y bobl.
- 2.3. Drwy adolygu ymatebion i atgyfeiriadau diogelu, gwelsom fod barn a dymuniadau'r bobl yn cael eu hystyried, a bod y bobl yn gallu penderfynu pa gam gweithredu roedd ei angen er mwyn eu cadw'n ddiogel. Gwelsom

dystiolaeth o asesiadau risg cynhwysfawr, ac roedd gwybodaeth a chynghor wedi'u rhoi i'r bobl ynghylch ble a sut i geisio help a chymorth pellach pe bai eu hangen arnynt.

- 2.4. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion rhai ffeiliau a oedd wedi dilyn llwybr diogelu yn cynnwys barn aelodau allweddol o'r teulu. Mewn un enghraifft y gwnaethom ei hadolygu, ni chynigiwyd eiriolaeth i unigolyn roedd angen cymorth arno er mwyn i'w lais gael ei glywed fel rhan o'r broses ddiogelu.
- 2.5. Drwy ei brosesau archwilio ei hun, mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol allweddol yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau ac ymholiadau ynglŷn â'r strategaeth. Dylai hyn gael ei ehangu i gynnwys aelodau allweddol o'r teulu a ffrindiau fel y bo'n briodol, gan ystyried cydsyniad yr unigolyn dan sylw ar sail penderfyniad cytbwys.
- 2.6. Roedd llais eiriolwyr anffurfiol yn cael ei gydnabod yng nghofnodion y ffeiliau y gwnaethom eu hadolygu, ond nid oedd yn cael digon o sylw bob amser. Mae hyn yn golygu nad oedd asesiadau bob amser yn gyfannol a bod perygl eu bod yn hepgor gwybodaeth bwysig ac yn methu â chydabod yn llawn rôl aelodau allweddol o'r teulu a ffrindiau wrth hyrwyddo annibyniaeth unigolyn.
- 2.7. Gall y bobl heb alluedd meddyliol fod yn hyderus bod eiriolaeth annibynnol â thâl yn cael ei chynnig a bod eu cyfraniad yn cael ei weld mewn penderfyniadau budd pennaf.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 2.8. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant ar ddementia i'w staff, gan dreialu dull newydd o gynllunio gofal, sy'n canolbwyntio ar ofal sy'n seiliedig ar gydberthnasau. Gwelsom fod gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'i wreiddio yn ymarfer y timau yn y gymuned. Cafodd y dull gweithredu hwn ei gadarnhau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw, ac yn y ddogfennaeth y gwnaethom ei hadolygu, roedd wedi'i drefnu i adlewyrchu anghenion yr unigolion.
- 2.9. Gwelsom fod asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu defnyddio'n briodol pan oedd pryderon am allu'r unigolyn i wneud penderfyniadau ar adegau allweddol o'i fywyd. Roedd cofnodion y ffeiliau a gafodd eu hadolygu yn fanwl iawn, ac roeddent yn cynnwys amrywiaeth briodol o gwestiynau a dulliau gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfodydd budd pennaf pan oedd angen penderfyniad er mwyn diwallu anghenion y bobl. Roedd cofnodion y cyfarfodydd budd pennaf hyn yn adlewyrchu dull gweithredu sensitif ac roeddent yn dangos tystiolaeth o farn aelodau o'r teulu ac eraill fel y bo'n briodol.
- 2.10. Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr cymdeithasol y gwnaethom siarad â nhw wedi'u hyfforddi fel aseswyr budd pennaf, ac roeddent yn hyderus wrth gyflawni'r agwedd hon ar eu rôl. Drwy ein trafodaethau â nhw a chofnodion mewn ffeiliau, gwelsom fod gan wasanaethau oedolion ddealltwriaeth gadarn

o'r angen i gydbwysu trefniadau diogelu â hawliau'r oedolion. Roedd yr asesiadau o alluedd meddyliol wedi'u cynnal i safon dda. Roedd y wybodaeth a'r sgiliau i gynnal yr asesiadau hyn i safon uchel yn amlwg yn y gwasanaeth.

- 2.11. Gwelsom fod y dulliau o gynnal asesiadau gofalwyr yn amrywiol. Mewn rhai achosion, roedd anghenion y gofalwyr wedi'u cydnabod, gydag ail asesiadau yn cael eu cynnal a'u rhoi ar waith ar gais. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gwnaethom ddarllen mewn ffeiliau fod y canlyniadau i raddau helaeth yn cael eu harwain gan y gwasanaethau, heb fod canlyniadau personol ehangach, wedi'u llywio gan sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig', yn cael eu hystyried ryw lawer os o gwbl. Ni all y bobl fod yn hyderus y cynigir asesiadau gofalwyr nac yr ymgwymerir â nhw fel mater o drefn yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 2.12. Gwelsom fod y staff yn ymwybodol o daliadau uniongyrchol ond nad oeddent yn rhoi blaenoriaeth uchel iddynt. Clywsom fod y duedd gyffredinol dros y misoedd diwethaf wedi bod yn dirywio, a bod prinder cynorthwyr personol a nodwyd i roi gofal a chymorth mewn rhai ardaloedd. Roedd hyn yn golygu nad yw'r holl opsiynau gwahanol i bobl a'u gofalwyr sicrhau eu canlyniadau yn cael eu hystyried gyda nhw yn llawn o bosibl.
- 2.13. Dywedodd staff y tîm diogelu wrthym am broblemau mewn perthynas â llwythi gwaith trwm, ac anallu i ganolbwyntio ar waith atal a chodi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau partner. Roedd hefyd ddiffyg eglurder yn y timau integredig ynghylch rôl y prif ymarferydd wrth oruchwylio a chydgysylltu elfennau o'r broses ddiogelu.
- 2.14. Gwnaethom ddysgu nad oedd y gweithwyr cymdeithasol a'r staff arall â chyfrifoldeb am reoli'r gofal yn gallu cael gafael ar gofnodion diogelu yn y gronfa ddata reoli (a elwir yn FLO) fel mater o drefn. Felly, nid oeddent bob amser yn ymwybodol o wybodaeth bwysig a all lywio'r broses o wneud penderfyniadau o bosibl. Roedd y rhesymeg dros hyn yn aneglur; rhoddwyd gwybod i ni y byddai hyn yn newid wrth i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru gael ei chyflwyno maes o law. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y eir i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar ymwybyddiaeth o'r holl wybodaeth bwysig.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.15. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, yn enwedig y rhai a gaiff eu cyflenwi yn eu cymunedau eu hunain. Cadarnhaodd hyn ein canfyddiad fod gan yr awdurdod lleol hanes da o dreialu a gweithredu dulliau arloesol a chreadigol o ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned, yn seiliedig ar gydweithrediad cryf â'r bobl sy'n byw yn ei ardal leol.
- 2.16. Yn unol â'n canfyddiadau, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yn ei hunanwerthusiad fod argaeledd gwasanaethau eiriolaeth yn gyfyngedig, y tu allan i wasanaethau ieuchyd meddwl. Nododd y rheolwyr comisiynu eu bod yn

ceisio gwella'r broses o ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau eiriolaeth y tu hwnt i'r trefniadau prynu yn y man a'r lle presennol, drwy Bartneriaeth Eiriolaeth Llinyn Aur ranbarthol.

3. Partneriaethau ac integreiddio – cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o gyflenwi gwasanaethau

Canfyddiadau: Mae ymrwymiad i weithio integredig ac mae'r bobl yn elwa ar gael cymorth gan staff o amrywiaeth o ddisgyblaethau sy'n cydweithio'n effeithiol er budd pennaf y bobl. Gall y bobl ddisgwyl y caiff eu cryfderau a'u galluoedd eu hystyried fel adnoddau cadarnhaol a ddefnyddir i bennu'r camau nesaf ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae llawer o'r dull gweithredu cadarnhaol yn y gymuned yn cyfateb i'r hyn a geir yn y sefydliadau diogel, lle mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, wedi'u cefnogi gan 'gyfeillion' a gaiff eu recriwtio o'r tu mewn i'r carchar, yn cydweithio er mwyn nodi a diwallu anghenion y carcharwyr, mewn ffordd debyg iawn i'r gwasanaethau a ddarperir i oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned.

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol a gwasanaethau a arweinir gan y defnyddwyr yn effeithiol. Gwelsom rai enghreifftiau ardderchog o'r rhain ar waith.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddull rhagweithiol o weithio mewn partneriaeth, wedi'i ategu gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Mae swyddi a ariennir ar y cyd yn cyflawni swyddogaethau gweithredol a strategol, gan hwyluso'r broses o roi cynlluniau tymor hwy ar waith yn effeithiol.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1. Dywedodd y bobl wrthym fod eu profiadau cyffredinol o wasanaethau yn eithaf di-dor, a'u bod yn meddwl bod staff y proffesiynau amrywiol sy'n eu cefnogi yn cydweithio'n dda. Dywedodd person a ymatebodd i'n harolwg gofalwyr wrthym: *"Living alone social services and health have given me the confidence to ask for help when I need it and give me the help to carry on my life style as I would wish keeping me reasonably active"*.
- 3.2. Gwelsom enghreifftiau da o gydweithredu rhwng y disgyblaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Mewn un achos, roedd unigolyn wedi cael ffisiotherapi yn yr ysbyty i ddechrau, ac yna wedi elwa ar gydweithredu agos rhwng y therapyddion galwedigaethol, y staff yn yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a staff yr ysbyty cymuned. Roedd hyn yn golygu ei fod yn parhau i gael ymweliadau aml ac asesiadau gan therapydd galwedigaethol er mwyn hwyluso'r broses o ddychwelyd adref o'r uned adsefydlu leol.
- 3.3. Gwelsom fod timau integredig o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, sydd wedi'u cyd-leoli ers peth amser, yn cydweithio'n dda.
- 3.4. Mae hybiau cymunedol yn sail ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys timau gwasanaethau cymdeithasol integredig mewn ardaloedd lleol, gwasanaethau dydd, clinigau cof, nyrsys ardal, nyrsys hosbis, gwasanaethau

therapi galwedigaethol, a gwelyau seibiant ac adsefydlu, ynghyd ag amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol.

- 3.5. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cysondeb y cymorth a gwelsom enghreifftiau lle cafodd hyn ei hyrwyddo. Er enghraifft, therapydd galwedigaethol yn parhau â'r rôl o reoli gofal rhywun ar ôl iddo adael yr ysbyty o ganlyniad i ansawdd eu cydberthynas ac oherwydd mai cymorth byrdymor ydoedd.
- 3.6. I'r gwrthwyneb, clywsom am heriau wrth gynnal y broses o gyflenwi gwasanaethau ledled yr awdurdod, yn enwedig yn y sector cymorth cartref annibynnol. Roedd hyn yn effeithio ar bobl y bu oedi yn eu gofal oherwydd bod diffyg opsiynau i'w cynnig iddynt, er enghraifft ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar rai pobl nad oeddent yn gallu cael gafael ar wasanaeth ail-alluogi mewn modd amserol. Mewn nifer bach o achosion, clywsom fod yr oedi wedi para am gryn amser.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.7. Mae'r bobl yn aml yn rhan o'r broses o ddatblygu mentrau cymdeithasol yn lleol, wedi'u hwyluso gan swyddogion menter a llesiant cymunedol yr awdurdod lleol. Clywsom am rai enghreifftiau da o'r rhain, gan gynnwys cyfleuster golchi dillad a chaffi. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, gyda'r nod o alluogi grwpiau cymunedol sy'n cael eu sefydlu i ddod yn hunangynhaliol.
- 3.8. Clywsom hefyd am y fenter 'llywio gofal' sy'n ymwneud â rhoi hyfforddiant mewn partneriaeth â sefydliadau iechyd y cyhoedd i dderbynyddion mewn meddygfeydd. Maent wedyn yn cynghori unigolion ar ddewisiadau amgen yn y gymuned yn lle gofal sylfaenol.
- 3.9. Gwelsom fod Cysylltwyr Cymunedol, a reolir gan y trydydd sector er mwyn rhoi cymorth mewn lleoliadau diffiniedig, yn elfen gynyddol annatod o'r broses o ddarparu cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn.
- 3.10. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod rhwng y staff cymorth cartref sy'n gweithio mewn un lleoliad a gwelsom enghreifftiau ardderchog o rannu gwybodaeth a chyfathrebu mewn grŵp gyda'r nod o hyrwyddo cysondeb i bobl. Gwnaethom hefyd arsylwi ar gyfarfod hwb amlddisgyblaethol, lle trafodir amgylchiadau unigol, gyda'r nod o ystyried y ffordd orau ymlaen.
- 3.11. Roedd llawer o'r dull gweithredu cadarnhaol hwn yn y gymuned yn cyfateb i'r hyn a geir yng Ngharchar Ei Mawrhydi Brynbuga lle gwelsom weithiwr cymdeithasol, ffisiotherapydd a therapydd galwedigaethol yn cydweithio er mwyn nodi a diwallu anghenion y carcharwyr. Un o nodweddion arbennig o gadarnhaol y gwasanaeth hwn yw grŵp 'cyfeillion' y carcharorion, sydd wedi'u recriwtio er mwyn cynorthwyo a chefnogi'r rhai sy'n cael gofal a chymorth; nid yw hyn yn cynnwys gofal personol. Cadarnhaodd yr unigolion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r sgwrs am 'yr hyn sy'n bwysig' a gofal

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer eu rôl fel 'cyfaill'. Nid yw llawer o'r bobl dan sylw o oedran addas i weithio mwyach neu nid ystyrir eu bod yn addas i weithio, felly ceir pwyslais ar gynnig gweithgareddau addas o fewn amgylchedd sy'n ceisio hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a llesiant. Roeddent yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, wedi'u trefnu yn unol â diddordebau a dymuniadau'r grŵp.

- 3.12. Roedd darparwyr cymorth cartref annibynnol yn gyffredinol gadarnhaol am eu cydberthnasau â Chyngor Sir Fynwy ac am weithio i'r cyngor. Gwnaethant ddweud wrthym am drefniadau da ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac am ddull o gynllunio a chyflenwi pecynnau gofal unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn unol â'n canfyddiadau, yr eithriad i'r darlun cadarnhaol hwn oedd yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth lle gellid cymryd peth amser i'r awdurdod lleol ffurfioli newidiadau i amgylchiadau unigol.
- 3.13. Clywsom gan y rheolwyr, er bod mentrau ar waith i gynorthwyo pobl gyda chlodiant i leoliadau amrywiaeth o weithgareddau, fod cryn heriau'n parhau mewn rhai o'r lleoliadau mwy gwledig. Mae Cyngor Sir Fynwy yn parhau i ystyried dulliau o fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 3.14. Mae gan Gyngor Sir Fynwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddull rhagweithiol o weithio mewn partneriaeth, wedi'i ategu gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig. Mae swyddi a ariennir ar y cyd yn gweithredu ar lefelau gweithredol a strategol, gan hwyluso'r broses o roi cynlluniau tymor hwy ar waith yn effeithiol.
- 3.15. Mae tîm trawsnewid yn cefnogi Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Defnyddiwyd arian trawsnewid yn ddiweddar i ddatblygu model 'Gartref yn Gyntaf' rhanbarthol lle mae therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol yn cydweithio mewn ysbytai aciwt er mwyn asesu a rhyddhau pobl, lle y bo'n briodol, yn y ffordd fwyaf amserol bosibl.
- 3.16. Mae timau integredig yn cydweithio er mwyn cefnogi'r bobl, ac mae partneriaethau cryf rhwng amrywiaeth o ddisgyblaethau a threfniadau cydweithio effeithiol yn amlwg iawn. Roedd hyn yn cael ei ategu'n glir gan broffesiynoldeb ac ymroddiad y staff dan sylw. Fodd bynnag, roedd yn aneglur a yw'r trefniadau hyn yn seiliedig ar fframwaith o brotocolau y cytunwyd arnynt neu ffyrdd eraill o ategu'r dull gweithredu hwn.
- 3.17. Yn yr un modd, roedd y prosesau y clywsom amdanynt gan y rheolwyr ar gyfer gwerthuso a monitro pa mor effeithiol y mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig yn bennaf ar straeon a chanlyniadau unigol. Er bod gan y rhain werth yn amlwg, nid oedd llawer o dystiolaeth o ddull sicrhau ansawdd integredig a systematig. Byddai hynny yn galluogi'r awdurdod lleol i ddangos yr effeithiolrwydd a'r effaith yn well ar raddfa ehangach ac yn helpu i nodi meysydd lle ceir heriau a/neu angen nas diwellir yn fwy effeithlon.

- 3.18. Soniodd cadeirydd y bwrdd rhanbarthol diogelu oedolion, a chynrychiolwyr o'r heddlu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oll wrthym am y cydweithio da â Chyngor Sir Fynwy mewn perthynas â diogelu.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Canfyddiadau: Mae hyrwyddo annibyniaeth ac ymyrraeth gynnar yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn flaenoriaeth uchel i'r awdurdod lleol. Mae wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd arloesol a chreadigol o weithio gyda'r bobl i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain, sy'n atal neu'n oedi'r angen am gymorth a gofal statudol. Mae'r adnoddau y mae'n eu buddsoddi yn cynnig amrywiaeth helaeth o wasanaethau yn y gymuned sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar a chanlyniadau da i'r bobl.

Gan ddibynnu ar yr angen a gyflwynir, gall rhai pobl ddisgwyl cael ymateb ataliol 'gallwn' amserol a chadarnhaol. Ni all pobl fod yn hyderus y byddant bob amser yn cael yr un ymateb ataliol amserol pan fydd angen cymorth cartref, mynediad at wasanaeth ailalluogi neu adolygiad o'u hanghenion gofal a chymorth arnynt. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen datblygu ei ddull o weithredu tele-ofal a ffyrdd eraill o hyrwyddo annibyniaeth â chymorth technolegol ymhellach. Mae angen sicrhau bod trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth 'drws blaen' yn fwy effeithiol a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion (Rhan 2) y Cod Ymarfer o ran cofnodi gwybodaeth.

Mae amseroldeb y broses o gyflwyno dull mewnol yr awdurdod lleol o ddarparu gofal cartref yn seiliedig ar gydberthnasau ('Troi'r Byd Wyneb i Waered') i'r sector darparwyr annibynnol yn allweddol er mwyn cynnig ateb cynaliadwy i'r pwysau presennol ar y sector.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 4.1. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw mewn grwpiau gweithgareddau ei bod yn werth mynychu'r grwpiau er mwyn annog a chynnal eu symudedd a'u hatal rhag bod yn unig ac yn ynysig. Gwnaethom ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cymorth amserol a bod trefniadau hyblyg yn cael eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion.
- 4.2. Roedd un unigolyn y gwnaethom ei adolygu â nifer o anghenion cymorth iechyd wedi cael amrywiaeth ardderchog o gymorth er mwyn hyrwyddo ei annibyniaeth drwy ddefnyddio cynorthwyr personol a thaliadau uniongyrchol. Gwrandawyd ar yr unigolyn a'i deulu a chawsant gymorth da. Roedd asesiadau amserol yn adlewyrchu ei anghenion newidiol ac yn dangos tystiolaeth o gydberthnasau gwaith effeithiol rhwng y gweithwyr proffesiynol amrywiol dan sylw. Cafodd gymorth bob dydd mewn perthynas â'i ofal personol, ei feddyginiaeth a'i weithgareddau cymdeithasol, a oedd yn cynnwys mynychu clybiau cinio yn y gymuned a grwpiau therapi. Roedd y dull ataliol hwn wedi galluogi'r unigolyn i barhau i fyw gartref yn unol â'i ddymuniadau.
- 4.3. Roedd unigolyn arall y gwnaethom adolygu ei gofnodion gofal wedi'i gefnogi i barhau i fyw gyda'i deulu yn unol â'i ddymuniadau, gyda'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarparwyd yn cynyddu wrth i'w anghenion gynyddu. Roedd y gwasanaethau seibiant a gwarchod hyblyg a ddarparwyd yn galluogi'r

gofalwyr i barhau â'r trefniant hwn; hebddynt, roedd yn debygol y byddai'r unigolyn wedi gorfod cael gofal preswyl er mwyn cefnogi ei anghenion cymorth cynyddol gymhleth.

- 4.4. Nid oedd adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cwblhau'n gyson yn unol â'r amserlenni statudol. Gwelsom un achos lle cynhaliwyd adolygiad yn hwyr, a arweiniodd at ddatgelu cam-drin ariannol.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 4.5. Roedd yr awdurdod lleol yn cyflogi swyddogion llesiant cymunedol a datblygu menter, a oedd yn gweithio'n bennaf ar lefel gymunedol gan annog a chydgyssylltu'r broses o sefydlu amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol yn effeithiol.
- 4.6. Gwelsom fod y cyfarfod 'Sgwrs Gymunedol' wythnosol a gynhelir gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol a'r trydydd sector yn ystyried y ffordd orau o gynnig cefnogaeth i bobl unigol. Er bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda, gellid gwneud mwy i ystyried cynnwys y bobl eu hunain yn y broses hon.
- 4.7. Gwelsom fod ymarferwyr sydd wedi'u cyd-leoli yn yr hybiau cymunedol yn cefnogi ei gilydd yn dda. Rhennir eu gwybodaeth a'u sgiliau cyffredinol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth ac ymyriadau ataliol, yn enwedig mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol a thrafodaethau am ddyraniadau.
- 4.8. Mae Cyngor Sir Fynwy yn dangos ei ymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth eang o gymorth a gweithgarwch anffurfiol i'r bobl. Rhoddir cydnabyddiaeth benodol i bwysigrwydd grwpiau a gwasanaethau eraill sy'n ceisio lliniaru unigedd ac ynysu cymdeithasol.
- 4.9. Nod cynlluniau arloesol eraill oedd gwneud y bobl sy'n cael rhai gwasanaethau yn ymwybodol o wasanaethau eraill a allai fod o fudd iddynt. Enghraifft o hyn yw'r cynllun peilot 'pryd ar glud' a reolir gan yr awdurdod lleol, lle disgwylir i'r gyrwyr sy'n cyflenwi'r gwasanaethau hyn dreulio o leiaf bum munud gyda phob person i siarad a chymdeithasu. Rhoddir pecynnau gwybodaeth i'r gyrwyr hefyd a chânt hyfforddiant i gyfeirio'r bobl at wasanaethau eraill pan fo'n briodol.
- 4.10. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y 'drws blaen' neu'r llwybr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, a elwir yn FISH (*Finding Individual Solutions Here*). Drwy arsylwi ar y gwasanaeth hwn, cafwyd cadarnhad bod sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu cynnal fel mater o drefn, bod y staff wedi cael hyfforddiant ar hyrwyddo sgysiau cydweithredol a bod y dull gweithredu cyffredinol yn seiliedig ar gryfderau.
- 4.11. Roedd mater diogelu y gwnaethom ei adolygu'n tanlinellu mai dim ond yn ddiweddar roedd yr awdurdod lleol wedi diweddarau rhai agweddau ar ei

ddogfennaeth a'i brosesau yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd hefyd un achlysur pan oedd mater wedi cael ei gau'n gynamserol, cyn i'r holl weithdrefnau diogelu priodol gael eu cwblhau. Er na chafodd y canlyniad hwn effaith uniongyrchol ar yr unigolyn dan sylw, mae'n tanlinellu nad yw'r trefniadau ar gyfer monitro a goruchwyllo'r prosesau diogelu'n ddigon cadarn. Clywsom hefyd gan ddarparwyr cymorth cartref am achosion achlysurol lle roedd pobl wedi profi oedi sylweddol mewn rhai camau o'r broses ddiogelu. Bydd goruchwyliaeth fwy effeithiol gan y rheolwyr yn hwyluso'r gwaith o nodi a monitro patrymau a thueddiadau yn y broses ddiogelu, er mwyn llywio gwaith yn y dyfodol.

- 4.12. Ni welsom lawer o dystiolaeth yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, na thrwy siarad â'r bobl a'r staff sy'n eu cefnogi, fod tele-ofal mwy soffistigedig a thechnolegau cynorthwyol eraill yn cael eu defnyddio er mwyn hyrwyddo annibyniaeth. Nid yw dull yr awdurdod lleol o roi technoleg gynorthwyol ar waith er mwyn hyrwyddo annibyniaeth wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 4.13. Mae cymorth corfforaethol ar gyfer gwaith ymyrraeth gynnar ac atal effeithiol, a chydabyddiaeth bod hyn yn gyfrifoldeb i bawb yng Nghyngor Sir Fynwy. Gwelsom enghreifftiau da o waith trawsbynciol, a diwylliant cefnogol sy'n ymestyn drwy'r lefelau amrywiol, o'r uwch-reolwyr a'r arweinwyr.
- 4.14. Mae'r uwch-reolwyr yn credu bod y broses o gyflwyno dull mewnol yr awdurdod lleol o ddarparu gofal cartref yn seiliedig ar gydberthnasau ('Troi'r Byd Wyneb i Waered') i'r sector darparwyr annibynnol yn allweddol er mwyn cynnig ateb cynaliadwy i'r pwysau presennol ar y sector. Bydd yn hanfodol i'r rheolwyr oruchwyllo'r cam nesaf hwn yn effeithiol er mwyn sicrhau ateb amserol a hirdymor.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 60 o ffeiliau achos a chynhaliwyd cyfweiliadau dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu mewn perthynas ag 16 o'r rhain. Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau.

Adolygwyd 10 o asesiadau o alluedd meddyliol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, uwch-swyddogion, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, y prif weithredwr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.

Cynhaliwyd arolwg o staff gofal cymdeithasol rheng flaen (derbyniwyd 65 o ymatebion) ac arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau (derbyniwyd 17 o ymatebion).

Adolygwyd wyth ffeil goruchwyllo staff a chofnodion goruchwyllo. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig.

Gwnaethom adolygu gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol, gan gynnwys ei hunanwerthusiad a gynhaliwyd ymlaen llaw.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â nifer o uwch-swyddogion o'r bwrdd iechyd lleol a siaradwyd â staff gweithredol o'r bwrdd iechyd lleol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â nifer o uwch-swyddogion o sefydliadau statudol ac asiantaethau partner o'r trydydd sector.

Darllenwyd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.

Gwnaethom arsylwi ar amrywiaeth o gyfarfodydd clwstwr a thrafodaethau amlddisgyblaethol mewnol.

Gwnaethom ymweld â charchar Brynbuga.

Y Gymraeg

Saesneg yw prif iaith yr awdurdod lleol a chynhaliwyd yr arolygiad yn unol â hynny. Gwnaethom gynnig gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol. Siaredir Cymraeg yn Sir Fynwy yn ogystal â nifer bach o ieithoedd eraill.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: unigolion a gofalwyr, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.